

Cyfrinachedd: deddfwriaeth allweddol

Yn atodiad cyfreithiol ein harweiniad, *Cyfrinachedd: arfer da wrth drin gwybodaeth cleifion*, nodir rhai o elfennau allweddol y gyfraith sy'n berthnasol i'r cam o ddefnyddio a datgelu gwybodaeth cleifion. Yn y daflen ffeithiau hon, rydym yn rhoi manylion pellach am gyfreithiau eraill sy'n mynnu neu sy'n caniatáu'r cam o ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol.

Nid diben y daflen ffeithiau hon yw disodli'r cyngor cyfreithiol annibynnol diweddaraf. Os nad ydych yn siŵr ynghylch sail gyfreithiol cais a wnaethpwyd am wybodaeth, dylech ofyn i'r sawl sy'n gwneud y cais am eglurhad ac yn ôl yr angen, dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

Cynnwys

Cyfrinachedd: deddfwriaeth allweddol.....	1
Troi at gofnodion cleifion a datgelu adroddiadau	2
Cymorth a diogelu oedolion.....	3
Deddfwriaeth galluedd meddyliol ac iechyd meddwl	4
Iechyd y cyhoedd a chynlluniau hysbysu gorfodol eraill	4
Atal, datrys ac erlyn troseddau	5
Datganiadau rhagholi.....	6

Troi at gofnodion cleifion a datgelu adroddiadau

Deddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990 (Cymru, Lloegr a'r Alban) ac Access to Health Records (Northern Ireland) Order 1993

Mae'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn darparu hawliau mynediad i gynrychiolydd personol claf a fu farw ac

i unrhyw unigolyn y gallai fod ganddynt hawliad yn deillio o farwolaeth claf. Pan wneir cais gan unigolyn y gallai fod ganddynt hawliad, cyfyngir ar y mynediad i gofnodion claf i wybodaeth sy'n berthnasol i'r hawliad.

Dylid cyfyngu ar y mynediad neu wrthod mynediad os ceir tystiolaeth:

- y byddai'r claf wedi disgwyl na fyddai'r wybodaeth yn cael ei datgelu i'r ymgeisydd
- bod y datgeliad yn debygol o beri niwed difrifol i unrhyw un arall, neu
- y byddai'n datgelu gwybodaeth am drydydd parti hefyd (ac eithrio gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a fu'n ymwneud â'r gofal ar gyfer yr unigolyn a fu farw) nad ydynt yn rhoi eu caniatâd.

Rhaid gwrthod mynediad i gofnodion sy'n cynnwys nodyn, a wnaethpwyd ar gais y claf, yn mynegi nad oeddent yn dymuno rhoi mynediad yn dilyn cais a wneir dan y Ddeddf.

Dim ond i gofnodion a luniwyd ar neu ar ôl y dyddiad pan ddaethant i rym y bydd y Deddfau hyn yn cynnig mynediad (1 Tachwedd 1991 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. 30 Mai 1994 yng Ngogledd Iwerddon).

Yn ogystal, rhaid rhoi mynediad i wybodaeth a gofnodwyd cyn y dyddiadau hyn os bydd angen gwneud hynny er mwyn gwneud unrhyw ran ddiweddarach o'r cofnodion yn ddealladwy.

Deddf Mynediad at Adroddiadau 1988 (Cymru, Lloegr a'r Alban) ac Access to Personal Files and Medical Reports (Northern Ireland) Order 1991

Mae'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn rhoi'r hawl i gleifion weld adroddiadau meddygol a ysgrifennwyd amdanynt at ddibenion cyflogaeth neu yswiriant gan feddyg sy'n gyfrifol am neu sydd wedi bod yn gyfrifol am ofal clinigol y claf. Mae gan gleifion yr hawl i ofyn i'r meddyg ddiwygio unrhyw ran o'r adroddiad sy'n anghywir neu sy'n gamarweiniol ym marn y

claf. Yn ogystal, mae ganddynt yr hawl i gofnodi'r ffaith eu bod yn anghytuno â chynnwys yr adroddiad mewn datganiad sy'n cael ei osod wrth yr adroddiad, neu dynnu eu caniatâd yn ôl i'r cam o ryddhau'r wybodaeth.

Cymorth a diogelu oedolion

Adult Support and Protection (Scotland) Act 2007

Mae'r Ddeddf hon yn mynnu bod byrddau iechyd yn yr Alban yn adrodd i awdurdodau lleol os ydynt yn gwybod neu'n credu bod unigolyn yn 'oedolion mewn perygl' (os ydynt yn meddu ar alluedd i wneud y penderfyniad neu beidio) a bod angen cymryd camau er mwyn eu diogelu. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff cyhoeddus a deiliaid swyddi penodol yn cydweithredu ag awdurdodau lleol wrth wneud ymholiadau am Oedolion mewn perygl, ac mae'n cynnwys pwerau i archwilio cofnodion iechyd at ddibenion cysylltiedig.

Mae modd i chi ddarllen arweiniad manwl yng Nghod Ymarfer Cymorth a Diogelu Oedolion.

Deddf Gofal 2014 (Lloegr)

Mae'r Ddeddf hon yn mynnu bod 'partneriaid perthnasol' yn cydweithredu gydag awdurdodau lleol sy'n gwneud ymholiadau am oedolion mewn perygl oni bai na fyddai gwneud hynny'n cydfynd â'u dyletswyddau ei hunain, neu y byddai'n cael effaith niweidiol fel arall ar y broses o gyflawni ei swyddogaethau. Mae partneriaid perthnasol yn cynnwys ymddiriedolaethau GIG, ymddiriedolaethau sefydledig a grwpiau comisiynu clinigol yn ardal yr awdurdod lleol. Yn ogystal, rhaid i unigolion neu gyrff penodol roi gwybodaeth i fwrdd diogelu oedolion, yn sgil ei gais, er mwyn galluogi neu gynorthwyo'r bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau. Mae nodiadau esboniadol y Ddeddf yn nodi mewn ffordd eglur

bod modd gofyn i feddygon am wybodaeth dan y ddarpariaeth hon.

Mae modd i chi ddarllen arweiniad manwl yn yr Arweiniad Statudol Gofal a Chymorth.

Carers (Scotland) Act 2016

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i geisio ac ystyried safbwyntiau gofalwyr wrth bennu anghenion unigolyn sy'n cael gofal. Yn ogystal, mae'n rhoi dyletswydd ar fyrddau iechyd i rannu gwybodaeth gyda gofalwyr ynghylch unigolyn sy'n cael gofal ac sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, ac i geisio ac ystyried safbwyntiau'r gofalwyr am y cam o'u rhyddhau. Disgwylir i'r Ddeddf ddod i rym ar 1 Ebrill 2018.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r Ddeddf hon yn mynnu bod 'partneriaid perthnasol' (sy'n cynnwys byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru) yn dweud wrth awdurdodau lleol os bydd ganddynt reswm rhesymol dros amau bod unigolyn yn 'oedolyn mewn perygl' (os ydynt yn meddu ar alluedd i wneud y penderfyniad neu beidio). Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn mynnu bod partneriaid perthnasol yn cydweithredu ag awdurdodau lleol wrth wneud ymholiadau am oedolion a phlant mewn perygl. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod unigolion neu gyrff penodol yn darparu gwybodaeth i fwrdd diogelu (neu gorff penodedig) ar gais y bwrdd diogelu, oni bai eu bod o'r farn

na fyddai gwneud hynny'n cyd-fynd â'u dyletswyddau eu hunain neu y byddai'n cael effaith niweidiol ar weithrediad eu pwerau neu eu dyletswyddau.

Deddfwriaeth galluedd meddyliol ac iechyd meddwl

Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Cymru a Lloegr)

Mae'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth gydag unrhyw un a awdurdodir i wneud penderfyniadau ar ran, neu a benodir i gynorthwyo a chynrychioli claf heb alluedd. Gallai hwn fod yn atwrnai lles, yn warcheidwad neu'n ddirprwy a benodir gan lys, neu'n eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol.

Mae modd i chi ddarllen arweiniad manwl yng nghodau ymarfer Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000, ac yng Nghod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Nid yw prif ddarpariaethau Mental Capacity Act (Northern Ireland) 2016 wedi dod i rym eto.

Deddf Iechyd Meddwl 1983, Mental Health (Care and Treatment) (Scotland) Act 2003 a Mental Health (Northern Ireland) Order 1986

Mae'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer nifer o sefyllfaoedd lle y mae modd datgelu gwybodaeth gyfrinachol am gleifion, hyd yn oed os nad yw'r claf yn rhoi eu caniatâd.

Mae modd i chi weld arweiniad manwl yng:

- Neddf Iechyd Meddwl 1983: Cod Ymarfer
- Code of Practice under the Mental Health (Care and Treatment) (Scotland) Act 2003
- yn Guidelines on the use of the Mental Health
- (Northern Ireland) Order 1986
- ac ar wefan Mental Welfare Commission for Scotland.

Iechyd y cyhoedd a chynlluniau hysbysu gorfodol eraill

Rheoliadau Erthyly 1991 (Cymru a Lloegr) a The Abortion (Scotland) Regulations 1991

Rhaid i feddyg sydd wedi terfynu beichiogrwydd hysbysu'r prif swyddog meddygol o'r ffaith honno cyn pen saith niwrnod o'r terfyniad. Ni cheir deddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon, lle nad yw'r cam o derfynu beichiogrwydd yn gyfreithlon.

Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwyllo Rheolaeth a Defnydd) 2013 (Lloegr a'r Alban); The Controlled Drugs (Supervision of Management and Use) Regulations (Northern Ireland) 2009 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwyllo Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008

Dan y rheoliadau hyn, mae gofyn i gyrff cyfrifol gydweithredu â'i gilydd mewn perthynas â'r cam o drin a gweithredu ynghylch gwybodaeth a rennir, sy'n ymwneud â rheolaeth a defnydd cyffuriau a reolir. Mae gyrff cyfrifol yn cynnwys byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau GIG a chyrff rheoleiddio. I'r graddau ag y bo modd, dylid gwaredu gwybodaeth sy'n dynodi manylion personol cleifion cyn y datgeliad, ond efallai y bydd angen datgelu gwybodaeth adnabyddadwy mewn rhai achosion, ar ôl sicrhau caniatâd os yw hynny'n ymarferol.

Darparir arweiniad pellach gan:

- Adran Iechyd y DU ar gyfer y rheoliadau yn Lloegr a'r Alban
- Adran Iechyd Gogledd Iwerddon
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) 2010 (Lloegr), The Public Health (Northern Ireland) Act 1967, Rhan 2 Public Health etc. (Scotland) Act 2008, Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010

Mae gan feddygon cofrestredig ym mhob un o wledydd y DU ddyletswyddau statudol i hysbysu unigolyn neu gorff priodol o achosion lle y ceir amheuaeth o fodolaeth clefydau heintus penodol. Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, rhaid i feddygon hysbysu'r unigolion priodol hefyd o achosion unrhyw haint neu halogi sy'n peri risg sylweddol neu y gallai beri risg sylweddol i iechyd dynol.

Cyhoeddwyd arweiniad manwl gan:

- Public Health England
- Llywodraeth yr Alban
- yr Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon
- GIG Cymru.

Atal, datrys ac erlyn troseddau

Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 (DU)

Mae adran 115 yn caniatáu datgeliad i sefydliadau megis yr heddlu, awdurdodau lleol a gwasanaethau prawf ond nid yw'n creu rhwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny. Dim ond os yw'r claf yn rhoi eu caniatâd y dylid datgelu gwybodaeth, neu os ceir budd tra phwysig i'r cyhoedd, neu er mwyn ymateb i orchymyn llys.

Criminal Law Act (Northern Ireland) 1967

Mae adran 5 yn rhoi dyletswydd ar bob dinesydd

i adrodd gwybodaeth i'r heddlu sydd ganddynt ynghylch cyflawniad trosedd berthnasol (un y mae'r ddedfryd am ei chyflawni yn bum mlynedd neu fwy). Nid yw'r ddyletswydd yn codi pan fydd gan unigolyn 'esgus rhesymol' dros beidio datgelu'r wybodaeth.

Deddf Traffig Ffyrdd 1988 (Cymru, Lloegr a'r Alban) a Road Traffic (Northern Ireland Order) 1981

Mewn amgylchiadau penodol, rhaid i bob dinesydd

(gan gynnwys meddygon) roi unrhyw wybodaeth i'r heddlu y mae o fewn eu grym i'w rhoi, o gael cais, a allai ddynodi manylion personol gyrrwr yr honnir eu bod wedi cyflawni trosedd traffig.

Deddf Terfysgaeth 2000 (DU)

Dan adran 38B y Ddeddf hon, mae'n drosedd i unigolyn fethu datgelu gwybodaeth i'r heddlu y maent yn gwybod ei bod yn berthnasol neu y maent yn credu y gallai fod yn berthnasol er mwyn atal gweithred derfysgol neu er mwyn arestio, erlyn neu gollfarnu unigolyn am gyflawni gweithred derfysgol. Mae Adran Iechyd y DU wedi cyhoeddi arweiniad ynghylch 'dyletswydd atal' i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, sy'n nodi'r mathau o ymddygiad y dylai meddygon fod yn ymwybodol ohonynt.

Mae Building Partnerships, Staying Safe: The health sector contribution to HM Government's Prevent strategy: guidance for healthcare workers (Adran Iechyd, 2011) yn sicrhau meddygon nad oes disgwyl iddynt gyflawni rôl goruchwyllo, ond mae'n nodi'r mathau o gamau y gallent eu cymryd os byddant yn pryderu y gallai claf fod yn ymwneud â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth neu eu bod mewn perygl o gael eu tynnu i mewn i weithgarwch o'r fath.

Datganiadau rhagholi

Yn yr Alban, gall y rheini sy'n ymwneud ag ymglyfreitha sifil neu droseddol ofyn i berson ddarparu datganiad rhagholi, fel rhan o'r broses gychwynnol o reoli achosion. Bydd rhai ceisiadau rhagholi yn gosod dyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwybodaeth ac efallai na fydd rhai eraill:

- Mewn achosion sifil yn yr Alban, nid oes achos lle gellir gorfodi person i ddarparu rhagholiad. Bydd rhwymedigaethau proffesiynol ynghylch cyfrinachedd cleifion yn berthnasol.
- Mewn achosion troseddol yn yr Alban, mae gan erlynydd y pŵer i wysio tyst yn ffurfiol i'w ragholi.

-
- Hefyd, mewn achosion troseddol, gall yr amddiffyniad wneud cais i'r llys i roi gwarant i wysio unrhyw berson i ymddangos gerbron siryf i'w ragholi ar lw. (Gallai'r erlynydd wneud yr un peth, ond mae hyn yn anghyffredin yn ymarferol).

Pan fydd meddyg (neu weithiwr iechyd proffesiynol arall) yn cael ei wysio'n ffurfiol, i ymddangos fel tyst mewn gwrandawriad neu i roi llw rhagholi, rhaid iddo gydymffurfio â'r gwys hwnnw. Yn y sefyllfa hon, bydd y meddyg yn cael rhybudd ymlaen llaw, a dylai gysylltu â'i gorff amddiffyn neu geisio cyngor cyfreithiol annibynnol ar y ffordd orau o ymateb i'r cais. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at Ddarparu datganiadau tystion neu gyngor arbenigol mewn achos cyfreithiol (2024).